**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| R Francis-Davies | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | M Thomas |
| E J King | A H Stevens | A Pugh |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): S Pritchard

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 209. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad canlynol:

1) Mynegodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 222 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr yr awdurdod lleol;

2) Mynegodd y Cynghorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 223 "Effaith Covid-19 a’r argymhelliad ar sut i drin rhentu ym Marchnad Abertawe”.

## 210. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2020.

## 211. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### i) Y cyn-Gynghorydd W Gethin Evans

Cyfeiriodd yr Arweinydd y Cyngor gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd W Gethin Evans. Bu'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu Ward Etholiadol Pontybrenin am 17 mlynedd. Bu'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu:

- Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw – 2 Mai 1991 to 31 Mawrth 1996;
- Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg – 6 Mai 1993 to 31 Mawrth 1996;
- Dinas a Sir Abertawe – 4 Mai 1995 to Mai 2008.

Gwasanaethodd y Cynghorydd Gethin Evans hefyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

## 212. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 213. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 214. Alldro Refeniw ac Olrhain Arbedion 2019/20.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys manylion yr alldro refeniw ar gyfer 2019-20.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau fel a nodwyd yn yr adroddiad;

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig a nodir yn Adran 7.3 yr adroddiad.

## 215. Alldro Refeniw 2019/20 - Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys manylion alldro CTR Dinas a Sir Abertawe o'i gymharu â'r gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer 2019-20.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau fel a nodwyd yn yr adroddiad;

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig a nodir yn Adran 2.1 yr adroddiad.

**216. Alldro ac Ariannu Cyfalaf 2019/20.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn cynnwys manylion alldro cyllido a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

**Penderfynwyd:**

1) Cario tanwariant net y gyllideb gymeradwy £29.38m ymlaen i 2020-21.

**217. Prosiectau Seilwaith Gwyrdd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" er mwyn ymrwymo i gynnwys y Cynllun Benthyciadau ar gyfer Canol Trefi yn y rhaglen gyfalaf a'i awdurdodi.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo ychwanegu prosiectau seilwaith gwyrdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru at y rhaglen gyfalaf yn 2020/21.

**218. Gohebiaeth CLiLC: Cyllid Ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth mewn Ysgolion.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn nodi sut y dyfernir cyllid gan CLlLC mewn perthynas â Darpariaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth mewn Ysgolion ar gyfer 2019-2020.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r goblygiadau sy'n gynwysedig yn yr adroddiad;

2) Derbyn y grant a'i gymeradwyo’n adolygol.

**219. Partneriaeth Addysg Gymraeg Ysgolion yr 21ain ganrif - Cytundeb Partneru Strategol.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn caffael partner sector preifat i weithio gyda hi i ddarparu addysg a chyfleusterau cymunedol yng Nghymru, dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r broses ac yn ceisio cymeradwyaeth i ymrwymo i Gytundeb Partneriaeth Strategol (CPS) gyda’r Cwmni Partneriaeth Addysg Gymraeg (WEPCo).

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canlyniad Cam yr Ymgeisydd a Ffefrir yn y Weithdrefn Cyfathrebu Cystadleuol dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 fel yr amlinellir yn yr adroddiad;

2) Cymeradwy'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yn Atodiad F yr adroddiad ac sydd wedi'i grynhoi yn Adran 3 yr adroddiad a rhoi caniatâd i'r Prif Swyddog Cyfreithiol ymrwymo i'r cytundeb ar ran y cyngor, yn amodol ar benderfyniad 3) isod;

3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Addysg, ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyfreithiol i:

   a) Gymeradwyo amodau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol; a

   b) Chymeradwyo unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol.

4) Cymeradwyo penodi Cyfarwyddwr Lleoedd fel 'Cynrychiolydd Cyfranogwyr' i fod yn rhan o’r Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS);

5) Drwy gytuno i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, nodir na ofynnir iddo benderfynu i fwrw ymlaen ag unrhyw Brosiect Braenaru, ac nad oes unrhyw beth yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol yn ymrwymo'r cyngor i wneud unrhyw ymrwymiad o'r fath. Bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â’r Prosiect Braenaru neu, yn wir, unrhyw brosiect Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd, yn cael ei adrodd i'r Cabinet am benderfyniad.

**220. Cais am gyllid allanol ar gyfer Cam 2 Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru a chais am gyllid allanol ar gyfer cynllun peilot Grantiau Cartrefi Gwag Cymoedd y Gorllewin a rhaglen gyfalaf 2020-21.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a ddarparai manylion y cais am Gam 2 Grant Cartrefi Gwag Llywodraeth Cymru a phrosiect peilot Grant Cartrefi Gwag Cymoedd y Gorllewin ac a geisiai gymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn rhaglen gyfalaf 2020/2021 i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau yn unol â’r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais ar gyfer Cam 2 Grant Cartrefi Gwag Llywodraeth Cymru a phrosiect peilot Grant Cartrefi Gwag Cymoedd y Gorllewin;

2) Cynnwys cynllun Cam 2 Grant Cartrefi Gwag Llywodraeth Cymru a chynllun Grant Cartrefi Gwag Cymoedd y Gorllewin yn rhaglen gyfalaf 2020-21;

3) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid i dderbyn y dyfarniadau grant ac amodau a thelerau'r cynnig pan dderbynnir y rhain gan Lywodraeth Cymru.

**221. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grantiau Cyfalaf y Gronfa Drafnidiaeth Leol a'r Gronfa Rhwydwaith Drafnidiaeth Leol ar gyfer 2020/21.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau canlyniad y cais am arian o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, a'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol ac a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwariant ar y prosiectau cysylltiedig yn 2020-21. Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), i ymrwymo ac awdurdodi'r cynllun yn ôl y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynlluniau'r Gronfa Drafnidiaeth Leol a'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol ynghyd â'u goblygiadau ariannol.

## 222. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Cilâ | Y Cyng. Paxton Hood-Williams |
| 2) | Ysgol Gynradd Clwyd | Christine Steward |
| 3) | Ysgol Gynradd y Crwys | Y Cyng. Paxton Hood-Williams |
| 4) | Ysgol Gynradd Tre-gŵyr | Pamela Jefferies |
| 5) | Ysgol Gynradd Gwyrosydd | Donna Saunders |
| 6) | Ysgol Gynradd Llangyfelach | Y Cyng. Gareth Sullivan |
| 7) | Ysgol Gynradd Mayals | Y Cyng. Lynda Tyler-Lloyd |
| 8) | Ysgol Gynradd Pentre’r Graig | Michael Fuge |
| 9) | Ysgol Gynradd Pentre’r Graig | David Titerickx |
| 10) | Ysgol Gynradd Pontlliw | Y Cyng. Gareth Sullivan |
| 11) | Ysgol Gynradd St Thomas | Y Cyng. Joe Hale |
| 12) | Ysgol Gynradd y Garreg Wen | Y Cyng. Des Thomas |
| 13) | Ysgol Gynradd Ynystawe | Michael Hedges |
| 14) | YGG Bryn-y-môr | Dr Stephen Bassett |
| 15) | YGG Bryn-y-môr | Ceri Hughes |
| 16) | YGG Bryn-y-môr | Y Cyng. Peter May |
| 17) | YGG Llwynderw | Y Cyng. Des Thomas |
| 18) | YGG Tirdeunaw | John James |
| 19) | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed | Y Cyng. Paul Lloyd |
| 20) | Ysgol Gyfun Pentrehafod | Y Cyng. Peter Black |

## 223. Effaith COVID-19 a'r argymhelliad ar sut i drin rhentu ym Marchnad Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn gofyn i aelodau gytuno ar ffordd o drin rhenti ym Marchnad Abertawe fel mesur dros dro i gefnogi masnachwyr Marchnad Abertawe i addasu ac ailadeiladu eu busnesau yn dilyn pandemig COVID-19.

**Penderfynwyd:**

1) Ailddechrau codi rhent ym Marchnad Abertawe yn dilyn y cyfnod di-rent a roddwyd eisoes (9 Mawrth - 28 Mehefin 2020);

2) Bydd gostyngiad i daliadau rhent i ddechrau a byddant yn cynyddu mewn cynyddrannau dros y 5 mis nesaf - gyda rhent llawn yn ddyledus erbyn y cyfnod rhentu 16 Tachwedd i 13 Rhagfyr 2020;

3) Ôl-ddyddio'r cais am ostyngiad mewn rhent i 29 Mehefin 2020;

4) Ar gyfer achosion arbennig, parhau i hepgor taliadau rhent yn llawn fel mesur tymor byr (yn amodol ar feini prawf a nodir ym mharagraffau 9.4.1 a 9.4.2 yr adroddiad).

**224. Cymorth ariannol ac arfarnu opsiynau partneriaethau hamdden.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar gostau cau’r portffolio presennol o Ganolfannau Hamdden a Plantasia dros dro a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer lefelau'r gefnogaeth ariannol sydd eu hangen ac amrywiadau i gontractau i sicrhau y gall cyfleusterau ailagor yn gynaliadwy yn y tymor byr i ganolig.

**Penderfynwyd:**

1) Estyn y cytundeb amrywiad cymorth presennol a lefel y gefnogaeth ariannol sydd ei hangen ar gyfer Freedom Leisure a Parkwood Leisure, tan 31 Gorffennaf, gan ragweld eu bod wedi bod ar gau am 4 mis, o fis Ebrill i fis Gorffennaf, gan nodi bod lefel y gefnogaeth ar gyfer y cyfnod o 4 mis yn debygol o fod yn gyfanswm o £800,000;

2) Os bydd hi'n ofynnol i’r cyfleusterau aros ar gau ar ôl 31 Gorffennaf, dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid i ymestyn y cymorth a gymeradwywyd ym mhenderfyniad 1 am gyfnod ychwanegol, hyd at uchafswm o 3 mis;

3) Cytuno ar y gefnogaeth ychwanegol i staff Freedom sy'n parhau i fod ar ffyrlo yn ystod y cyfnod cau a/neu'r cyfnodau ailagor. Cytuno ar ychwanegu swm penodol o 20% at y Cynllun Cadw swyddi dros fisoedd dilynol Gorffennaf, Awst a Medi, ar sail y costau a ddisgwylir a nodir ym mhenderfyniadau 1 a 4;

4) Cymeradwyo cynllun ailagor Opsiwn 2 Freedom Leisure sy'n gofyn am warant o ddiffyg ychwanegol o hyd at £1m gan y cyngor, yn ogystal â'r ffi reoli fisol gytundebol ar gyfer y cyfnod agor fesul cam a ddisgwylir o fis Awst i ddiwedd

mis Rhagfyr 2020 (neu gyfnod cyfwerth o 5 mis) wedi'i gysoni dan ymagwedd agored;

5) Cymeradwyo cynllun ailagor Parkwood Leisure sy'n gofyn am warant o ddiffyg ychwanegol o hyd at £100,000 gan y cyngor, yn ogystal â'r ffi reoli fisol gytundebol ar gyfer cyfnod agor fesul cam a ddisgwylir o fis Awst i ddiwedd mis Ionawr 2021 (neu gyfnod cyfwerth o 6 mis);

6) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd i ddechrau trafodaethau masnachol ar yr amodau a'r telerau i'w cytuno mewn perthynas ag unrhyw warant ychwanegol dros gyfnod cymorth estynedig i gynnwys unrhyw delerau ad-dalu, ailbroffilio ffioedd rheoli, newidiadau i gyfran yr elw neu fesurau eraill;

7) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ddechrau unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol i roi unrhyw un o’r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn ar waith ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.30 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 16 Gorffennaf 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 21 Gorffennaf 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 22 Gorffennaf 2020 |